GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace

# Cyflwyno'r ap GIG COVID-19




## Cyflwyniad

Bydd yr **ap** GIG COVID-19 yn helpu i reoli lledaeniad **Coronafeirws**.




Mae **ap** yn rhaglen sydd gennych chi ar eich ffôn i’ch helpu i wneud rhywbeth.



Mae **Coronafeirws** yn salwch newydd sy’n lledaenu o gwmpas y byd.

Mae’n cael effaith ar eich ysgyfaint ac anadlu.

## Yr ap newydd



Bydd yr ap newydd yn eich helpu:

- i ganfod a oes llawer o bobl â Coronafeirws yn eich ardal



- i gael prawf os ydych chi’n meddwl y gallai fod arnoch chi



- i wirio’r lleoedd y byddwch yn ymweld â hwy, er mwyn i chi ganfod os oes pobl yno ar yr un pryd, â Coronafeirws



- i ganfod os ydych chi wedi bod yn agos at eraill sydd â Coronafeirws




Os ydych chi wedi bod yn agos at rywun sydd â’r ap ac yn profi’n gadarnhaol ar gyfer Coronafeirws, bydd yr ap yn dweud wrthych beth i’w wneud i gadw’ch hun a phobl eraill yn ddiogel.



## Cadw’ch gwybodaeth yn breifat


Bydd yr ap yn gweithio ar eich ffôn wrth i chi symud o gwmpas.



Nid yw’n defnyddio unrhyw wybodaeth amdanoch chi, fel eich enw neu gyfeiriad.



Ni fydd neb yn gwybod pwy ydych chi na ble rydych chi’n byw.



## Lawrlwythwch yr ap


Yr ap GIG COVID-19 yw'r ffordd gyflymaf  i gadw'ch hun a phobl eraill yn ddiogel rhag Coronafeirws.




Lawrlwythwch yr ap i'ch ffôn heddiw.




Dechreuwch ddefnyddio'r ap a helpwch i atal lledaeniad Coronafeirws.



## Am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am yr ap GIG COVID-19 newydd ewch i: **www.covid19.nhs.uk**